# Fframwaith Rhifedd

## Blwyddyn 6

### Adnabod prosesau a chysylltiadau


- trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd
- adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- dewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio
- dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas
- dewis strategaeth feddyliol neu ysgrifenedig priodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell
- amcangyfrif a delweddu maint wrth fesur a defnyddio'r unedau cywir

### Cynrychioli a chyfathrebu

- egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol
- mireinio dulliau anffurfiol o gofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig, gan symud i ddulliau cyfrifo ffurfiol pan fydd wedi datblygu digon i wneud hynny
- defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol
- dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas

### Adolygu

- dewis o blith ystod gynyddol o strategaethau gwirio er mwyn penderfynu a yw atebion yn rhesymol
- dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys yr hyn y mae'r cyfrifiannell yn ei arddangos
- defnyddio data i ddod i gasgliadau, a sylweddoli y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol



### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau rhifedd)...

- darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1 miliwn ac i 3 lle degol yng nghyd-destun mesuriadau
- defnyddio amrywiaeth o strategaethau meddwl i alw tablau lluosi i gof hyd at 10 x 10 a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu
- lluosi rhifau a degolion â lluosrifau 10, e.e. 15 x 30, 1.4cm x 20
- defnyddio'r ddealltwriaeth o gywerthoedd ffracsiynau, degolion a chanrannau syml, e.e. canfod 25% o 60cm a gwybod bod hyn yn gyfwerth â $\frac{1}{4}$ o 60cm
- cyfrifo symiau canrannol syml yn seiliedig ar 10%, e.e. 20%, 5%, 15%
- defnyddio cymhareb a chyfrannedd syml, e.e. cymysgu paent
- adio a thynnu rhifau drwy ddefnyddio rhifau cyfan a degolion wrth weithio gyda mesuriadau
- lluosi rhifau 2 a 3 digid â rhif 2 ddigid
- rhannu rhifau 3 digid â rhif 2 ddigid
- gwirio atebion drwy ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro
- amcangyfrif drwy dalgrynnu i'r 10, y 100, y 1 000 neu'r rhif cyfan agosaf
- defnyddio'r termau elw a cholled mewn gweithgareddau prynu a gwerthu a gwneud cyfrifiadau syml ar gyfer hyn
- deall y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfrifon banc





### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau mesur)...

- defnyddio amrywiaeth o gloriannau ac offer mesur, e.e. clorian lle ceir 4 ymraniad cyfartal rhwng y prif unedau
- cofnodi mesuriadau mewn ffyrdd gwahanol, e.e. 2.3kg = 2kg 300g
- defnyddio ieithwedd unedau imperial a ddefnyddir yn feunyddiol, e.e. milltiroedd, peintiau
- defnyddio a dehongli amserlenni a rhestrau er mwyn cynllunio digwyddiadau a gweithgareddau a chyfrifo yn rhan o'r broses gynllunio
- amcangyfrif hyd taith o ran amser
- defnyddio stopwatsis i amseru digwyddiadau mewn munudau ac eiliadau i'r degfed eiliad agosaf
- mesur a chofnodi'r tymheredd lle ceir darlleniadau positif a negatif
- cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng gwahanol dymereddau, gan gynnwys rhai lle bydd y tymheredd yn codi ac yn gostwng heibio 0°C

### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau data)...

- cyflwyno data drwy ddefnyddio:
  - rhestrau, siartiau cyfrif, tablau a diagramau, tablau amledd
  - siartiau bar, siartiau data wedi'u rhannu i grwpiau, graffiau llinell, graffiau trawsnewid
- echdynnu a dehongli gwybodaeth o ystod gynyddol o ddiagramau, amserlenni a graffiau, gan gynnwys siartiau cylch syml
- defnyddio cyfartaleddau ac ystod i ddisgrifio set ddata.



